# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 21 Chwefror 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Ym mha ffordd y mae'n bwriadu gweithredu er mwyn sicrhau bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud o Oen Cymreig gan Luoedd Ei Mawrhydi. (WAQ3678)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud ar weithredu argymhellion adroddiad PRIAE Medi 1999 "Care Needs of Black and Minority Elders in Wales". (WAQ3677)

**David Melding (Canol De Cymru);** A yw cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 104/78 (29 Awst 1978) "Adaptations of Housing for People who are Physically handicapped" yn dal mewn grym, neu a yw wedi cael ei ddisodli. (WAQ3680)

**David Melding (Canol De Cymru);** A yw wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch diffyg darpariaeth cadeiriau olwyn – ac eithrio ar gyfer gadael ysbytai – gan y gwasanaeth gosod aelodau artiffisial yn Ysbyty Rookwood. (WAQ3682)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa ganllawiau sy'n bodoli, os oes rhai o gwbl, ar gyfer trin unigolion ag anabledd dysgu â llaw, ac a yw'n fwriad ganddi gynhyrchu canllaw polisi o'r fath os nad oes un yn bodoli. (WAQ3704)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd

**David Melding (Canol De Cymru);** A oes gan Cadw unrhyw gynlluniau i gymryd cyfrifoldeb dros safle Castell Dinas Powys. (WAQ3681)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A oes unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas ag awdurdod cymdeithasau tai i brynu eiddo mewn ardaloedd arbennig. (WAQ3701)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A oes unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas ag awdurdod cymdeithas tai Clwyd Alun i brynu eiddo yn Ochr Orllewinol y Rhyl. (WAQ3703)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all gadarnhau bod adeiladau gwag yn cael eu hystyried fel safleoedd tir llwyd o safbwynt cynllunio. (WAQ3709)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd fydd yr astudiaeth ymchwil, a grybwyllwyd yn WAQ2750, yn cael ei chyhoeddi. (WAQ3710)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff roi datganiad o’i bolisi ynghylch adeiladu ar safleoedd tir glas. (WAQ3711)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff roi datganiad o’i bolisi ynghylch adeiladu ar safleoedd tir llwyd. (WAQ3712)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw polisi’r Cynulliad Cenedlaethol ar docynnau bws consesiynol ac a oes elfen orfodol i unrhyw bolisi o’r fath. (WAQ3715)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa sicrwydd sydd wedi cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ynghylch gweithredu Morglawdd Bae Caerdydd. (WAQ3700)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw ymrwymiadau ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, brosiect wrth brosiect, yn ôl y dadansoddiad mwyaf manwl posib, mewn perthynas â rheoli a chynnal a chadw Bae Caerdydd. (WAQ3689)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd cost gyfan Awdurdod y Porthladd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ3685)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa brosiectau penodol sydd wedi cael eu clustnodi gan Gyngor Sir Caerdydd o’r arian a’r eiddo y tynnwyd sylw atynt yn y memorandwm dealltwriaeth rhyngddynt hwy a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ3684)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd cyfanswm yr arian a'r cyfrifoldebau, yn ôl y dadansoddiad mwyaf manwl posib, y bydd Cyngor Sir Caerdydd yn ei etifeddu oddi wrth Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill. (WAQ3688)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa reoliadau diogelwch sy'n angenrheidiol er mwyn rhedeg Morglawdd Bae Caerdydd. (WAQ3687)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i redeg y morglawdd ar ôl i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddod i ben. (WAQ3686)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch wrth redeg morglawdd Bae Caerdydd. (WAQ3693)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amcangyfrif y mae wedi'i wneud o gost gohirio corlaniad Dr Croyw ym Mae Caerdydd mewn perthynas â'r canlynol:

i. difrod a achoswyd gan sgwrio
ii. colli gwarantiad
iii. colli hyder busnes
iv. gwarantau diferiad dr. (WAQ3692)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A oes unrhyw fudd yn codi o'r gwarantiad, a gynigir gan gontractwyr y morglawdd, sydd o dan fygythiad o ganlyniad i'r oedi cyn corlannu Dr Croyw. (WAQ3691)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw canlyniadau'r oedi 12-mis i gorlannu Dr Croyw ym Mae Caerdydd mewn perthynas â chytundebau diferiad dr. (WAQ3690)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fydd gofyn i Thames Water gymryd unrhyw gyfrifoldeb neu weithredu mewn unrhyw ffordd mewn perthynas â Bae Caerdydd. (WAQ3706)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Sut y mae gwariant ar gyfer pob disgybl unigol mewn (a) Addysg gynradd a (b) Addysg uwchradd yn Sir Ddinbych yn cymharu gydag Awdurdodau Addysg Lleol eraill yng Nghymru. (WAQ3702)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A all gynnig sylwadau ar wneud Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yn fwy hygyrch, a sicrhau mwy o ddefnydd ohoni. (WAQ3732)